RHEOLI AMSER YN EFFEITHIOL A DATBLYGU CANLLAWIAU AR GYFER TREFNU RHESTR DDYDDIOL

NODAU AC AMCANION

- 1. Cofnodi rhestr ddyddiol a dadansoddi data 5 deintydd unigol dros gyfnod o chwe wythnos, gan ddefnyddio taflenni casglu data wedi eu cynllunio mewn cyfarfod perthnasol.

- 2. Dadansoddi'r wybodaeth er mwyn darganfod cryfderau a gwendidau'r deintyddion unigol, a'r gwahaniaeth rhwng y deintyddfeydd

- 3. Defnyddio'r darganfyddiadau i ddatblygu'r canllawiau er mwyn creu system o restrau dyddiol effeithiol a fydd o fantais i'r proffesiwn deintyddol a'r cleifion.

DULL

- 1. Yn y cyfarfod cyntaf, trefnwyd beth fyddai'r amcanion, a chynlluniwyd taflenni casglu gwybodaeth. Hefyd penderfynwyd ar amser o chwe wythnos i'r archwiliad.

- 2. Yn yr ail gyfarfod, trafodwyd cynllun y taflenni dadansoddi a chasglu gwybodaeth, a gosod canllawiau ar sut i recordio'r data gan osod dyddiad dechreuol, sef 22/02/2010.

Isod, fe welwch ran o'r daflen gasglu gwybodaeth sy'n rhedeg hyd at 5.30yp gyda thoriad o awr am ginio. Caiff ei rhannu ar draws yn 15 categori, ac i lawr mewn toriadau o 10 munud. Mae pob uned o weithgaredd yn cael ei chofnodi mewn toriadau o 10 munud, ac wedi eu marcio gydag 1 (ee. Byddai llenwad 30 munud angen tri 1 fertigol.) Gellwch gofnodi sawl gwaith y mae'r slot wedi gorlewni.

Taflen Casglu Data. Dyddiad: Deintydd.

Ams	E/R X-RAY	Prev Counc S/P	Fills	Perio	EXT	RCT	CR Bridge	Surg	Dent	IV Sed	Ortho	Emerg	DNA Canc	Density	Over Book Min
9.00	1											1		1	
9.10	1	1										1		2	
9.20	1	1										1		2	
9.30			1		1									1	
9.40			1		1								1	1	
9.50															
4.40															
4.50															
5.00	1														
5.10															
5.20															
TE															
Cyfanswm	12	2	9	2	2	2	6		10		2	6	9	22	160

Uchod gweler gwaelod y daflen gasglu gwybodaeth ble mae'r cyfanswm yn cael ei nodi. Uchafswm y slotiau 10 munud am y diwrnod yw 45 sef 450 munud. Caiff y cyfanswm ei ychwanegu at ei gilydd, a chofnodir y nifer sydd wedi eu gorfwcio.

Taflen Ddadansoddi: Wythnos 1
Deintydd

Diwrnod	E/R XT-RAY	Prev Counc S/P	Fills	Perio	EXT	RCT	CR Bridge	Surg	Dent	IV Sed	Ortho	Emerg	DNA Canc	Density	Over Book Min
Llun															
Maw															
Mer															
Iau															
Gwem															
Cyfan-swm yr wythnos															

Mae'r taflenni dadansoddi uchod yn cofnodi data a gasglwyd dros gyfnod o wythnos fel a welwyd ar y taflenni cofnodi ar y dudalen flaenorol. Bydd 6 thaflen ddadansoddi ar gyfer pob deintydd.

CANLYNIADAU

- 1. Yn y trydydd cyfarfod, casglwyd yr holl daflenni cofnodi a dadansoddi. Hefyd roedd cyfle i drafod a chymharu'r hyn a ganfuwyd gennym, a threfnu canllawiau i wella ein rhestrau dyddiol. Cofnodwyd y nifer o gleifion preifat, a gwerth cytundeb GiG ar gyfer pob deintydd.

- 2. Rhoddwyd holl ganlyniadau'r taflenni dadansoddi ar daenlen er mwyn creu graffiau ar gyfer pob deintydd.

DADANSODDI DATA

Dent 3bo	E/R X-ray	Pre S/P	Fills	Perio	Ext	RCT	CR/BRI	Surg	Dent	IV Sed	Ortho	Emerg	Dna/Ca	Den	OB min
Week 1	55	4	49		9	20	9		2			31	34	4	-110
Week 2	27	9	67		5	13	2		4			20	26	4	-70
Week 3	38	14	70		2	21	3		7			21	42	6	-70
Week 4	49	12	52		3	22	4		6			23	45	2	-90
Week 5	17	10	84		6	27	3		4			21	19	15	110
Week 6	22	15	69		8	18	8		5			20	14	3	-10
Total	208	64	391		33	121	29		28			136	180	34	-240

Cyn i ni gymryd cipolwg ar y graffiau, mae'n werth nodi nifer y cleifion sydd gan bob deintydd a sut y mae hynny'n effeithio ar y canlyniadau.

Deintydd 1:	1100 Denplan	2760UDA	1200UOA
Deintydd 2:	800 Denplan	2350UDA	
Deintydd 3:	1000 Denplan	1200UDA	
Deintydd 4:	600 Denplan	1200UDA	
Deintydd 5:	900 Denplan	900UDA	

GRAFFIAU

- Mae'r 5 graff a ganlyn yn dangos dosraniad y dulliau o weithredu ar gyfer y deintyddion gwahanol. Mae canran y rhaniadau o weithrediadau yn debyg iawn gan bob deintydd, ond mae'r gwahaniaeth i'w weld gyda'r nifer na ddaeth i'r apwyntiad, naill ai trwy ohirio neu beidio mynychu. Hefyd y nifer a gafoddd eu gorfwcio.


Dent 1
350
300
250
200
150
100
50
0
10 Min Slots
1
Gweithgareddau
E/R X-ray
Pre S/P
Fills
Perio
Ext
RCT
CR/BRI
Surg
Dent
IV Sed
Ortho
Emerg
Dna/Ca
Den


Dent 2
400
350
300
250
200
150
100
50
0
10 Min Slots
1
Gweithgareddau
E/R X-ray
Pre S/P
Fills
Perio
Ext
RCT
CR/BRI
Surg
Dent
IV Sed
Ortho
Emerg
Dna/Ca
Den


Dent 3
10 Min Slots
450
400
350
300
250
200
150
100
50
0
208
64
391
33
121
29
28
136
180
34
1
Gweithgareddau
E/R X-ray
Pre S/P
Fills
Perio
Ext
RCT
CR/BRI
Surg
Dent
IV Sed
Ortho
Emerg
Dna/Ca
Den


Dent 4
10 Min Slots
300
250
200
150
100
50
0
254
144
198
9
28
66
77
19
6
70
97
79
E/R X-ray
Pre S/P
Fills
Perio
Ext
RCT
CR/BRI
Surg
Dent
IV Sed
Ortho
Emerg
Dna/Ca
Den
Gweithgareddau


Dent 5
10 Min Slots
400
350
300
250
200
150
100
50
0
366
95
270
30
48
49
67
93
112
168
1
Gweithgareddau
E/R X-ray
Pre S/P
Fills
Perio
Ext
RCT
CR/BRI
Surg
Dent
IV Sed
Ortho
Emerg
Dna/Ca
Den

Gwelwn fod y nifer a ohirioddâ eu hapwyntiad neu na ddaeth i'w hapwyntiad, yn eithaf cyson gyda 3 deintydd, ond yn uwch gyda 2. Wrth ystyried yr ail ddeintydd, priodolir hynny i'r ffaith fod ganddo gynifer o oedolion yn gleifion GIG, a chyda'r 3ydd deintydd un o'r rhesymau oedd fod nifer uchel o gleifion Denplan â swm misol i'w dalu. Ni ofynnir am swm o arian os collir apwyntiad gan unrhyw un o'r 5 deintydd a sylweddolwyd bod llawer iawn mwy o gleifion yn colli apwyntiadau ers y cytundeb newydd lle roedd dirwyon wedi eu gwahardd. 136 ar gyfer y 3ydd deintydd sydd gyfystyr â 3 diwrnod o waith dros y cyfnod o 6 wythnos.



Mae'r gorfwcio ar gyfer y deintyddion 1,2,5 yn uwch na deintyddion 3 a 4 gan eu bod o'r un ddeint-yddfa. Y cysylltiad cyffredin yn amlwg yw'r dderbynwraig. Gwelwn fod y cyfnodau rhwng 9-10, a 2-3 yn llawn iawn gydag apwyntiad-au brys. Ymddengys i'r deintydd 1af gael cyfnod prysur o orfwcio rhwng 4-5 oherwydd nifer uchel o ddisgyblion ysgol, ond mae nodwy bod nifer uchel iawn o gleifion gan y deintydd 1af. Roedd gan y 3ydd deintydd reolau ynglŷn â gorfwcio.



Mae'r graff yma'n dangos y gorfwcio / tanfwcio ar y rhestr ddyddiol fel unedau o 10 munud. Gyda'r tanfwcio, roedd y rhain yn apwyntiadau na chafodd eu llenwi. Mae hyn yn berthnasol i ddeintydd 2 a 4. Mae gan ddeintydd 1 ormod o gleifion i fedru tanfwcio. Mae deintydd 3 a 5 yn eithaf agos i'r Axis 0 gyda lefel yr apwyntiadau.



CASGLIAD A CHANLYNIAD

Roedd y cyfarfod diwethaf yn bennaf er mwyn trafod canlyniadau'r graffiau, a gallu cymharu ffigyrau'r deintyddion unigol. O'r drafodaeth, penderfynwyd ar y rheolau isod.

RHEOLAU'R RHESTR DDYDIOL

1. Y dderbynwraig i gadw at y rheolau heb gymryd ei dylanwadu gan y cleifion.
2. Cadw at amseroedd yr apwyntiadau, a pheidio ag ychwanegu archwiliad neu apwyntiad brys o fewn yr amser.
3. Ni ddylid gorfwcio apwyntiad arferol.
4. Dylid cadw'r amser rhwng 11.30yb a 12.00yp yn rhydd ar gyfer apwyntiadau brys.
5. Adnabod yr oriau lle mae gorfwcio, a'u rhannu'n gyfartal ar y rhestr ddyddiol.

Deintydd 1 (3 deintydd)

Y deintydd yma oedd â'r nifer mwyaf o gleifion ac adlewyrchwyd hynny yn y nifer uchaf o orfwcio hyd at 330 slot 10 munud, cyfystyr â 1880 munud. Roedd y gorfwcio gyfwerth â 4 diwrnod dros y cyfnod o 6 wythnos. Wrth ystyried nifer y cleifion a welwyd mewn diwrnod, roedd yr apwyntiadau a gollwyd neu a ohiriwyd yn cael eu llenwi ac felly 50% fwy effeithiol na'r gweddill. Yr adegau prysuraf gan ddeintydd 1 oedd rhwng 9-10, 2-3 a 4-5.

Wrth edrych ar reolau'r dyddlyfr i hwyluso'r cyfnodau yma, penderfynwyd ar y canlynol:

1.Byddai 11:30 – 12:00 yn cael ei gadw'n rhydd ar gyfer apwyntiadau brys.

2.Dim ond triniaethau brys o bwys i'w gweld yr un diwrnod.

3.Rhaid cadw at yr amseroedd penodedig.

Gan fod yr amser aros ar gyfer apwyntiadau cadwraeth yn barod yn 10 wythnos, pe bai'r rheolau uchod yn bodoli gallai'r amser aros ddyblu. Wrth edrych ar hyn, y ffordd ymlaen yw rhannu rhywfaint o'r gwaith gyda'r deintyddion eraill.

DEINTYDD 2 (3 DEINTYDD)

Y deintydd yma oedd yr ail uchaf gyda nifer o apwyntiadau a ohiriwyd, a gollwyd neu a orfwciwyd / a danfwciwyd. Gall hyn fod oherwydd fod nifer o'i gleifion yn rhai GIG, lle nad oedd cosb ariannol am hyn. Agwedd arall o orfwcio/tanfwcio yw'r rheoli anfoddhaol ar y dyddlyfr. Er mwyn hwyluso hyn:

1. Rhaid i'r dderbynwraig lynu at y rheolau.
2. Dylai'r gwaith gael ei rannu'n gyfartal yn ystod y dydd a pheidio â chanolbwyntio ar awr gyntaf y bore a'r prynhawn.
3. Dim gorfwcio apwyntiadau arferol.
4. Cadw'r cyfnod rhwng 11:30 a 12:00 yn agored i apwyntiadau brys. (800 Denplan, 2350 UDA. Uchafswm 100%.)

DEINTYDD 3 (DEINTYDD UNIGOL)

Doedd ond 34 slot wedi eu gorfwcio gan y deintydd yma a 4 awr o danfwcio dros y cyfnod o 6 wythnos. Mae'r nifer o 1000 o gleifion Denplan a 1200 UDA i'w weld yn effeithiol iawn er bod y nifer o apwyntiadau a ohiriwyd neu a gollwyd yr uchaf trwy'r awdit. Mae gan y ddeintyddfa yma reolau caeth ynglŷn â gorfwcio ac apwyntiadau brys, ac roedd hynny'n cael ei adlewyrchu yn y ffordd effeithiol yr oedd amser y ddyddlyfr yn cael ei reoli.

I hwyluso'r sefyllfa:

- Rhaid canolbwyntio ar leihau'r nifer o apwyntiadau a ohiriwyd neu a gollwyd er mwyn lleihau'r angen i ailfwcio. Drwy wneud hynny, mae'r amser aros am apwyntiad arferol yn lleihau, gan gynyddu'r effeithiolrwydd.

Deintydd 4 (deintydd unigol)

Y deintydd yma oedd â'r nifer lleiaf o gleifion: 600 Denplan, 1200 UDA, ond â nifer uchel o apwyntiadau a ohirwyd, a gollwyd ac a danfwciwyd. Ond wrth ddadansoddi'r wybodaeth o'r taflenni, roedd yn amlwg nad oedd fawr ddim straen ar y dyddlyfr. Gyda'r math yma o gyfanswm cleifion, byddai hyd yn oed rhedeg y dyddlyfr yn aneffeithlon, yn rhedeg yn eithaf llyfn, gyda lleiafswm o straen ar y deintydd a'r cleifion.

I hwyluso'r sefyllfa:

- Dilyn y rheolau.

DEINTYDD 5 (3 DEINTYDD)

Roedd y deintydd yma yn eithaf canolig yn yr astudiaeth o ran apwyntiadau a ohiriwyd, a gollwyd neu drwy orfwcio ond roedd rheolaeth amser ardderchog yma gyda 900 o gleifion Denplan a 900 UDA. Y brif agwedd sydd i'w gwella yma yw'r rheoli apwyntiadau brys a pharchu'r slotiau amser ar gyfer gwaith arferol.

1. 11:30 – 12:00 ar gyfer apwyntiadau brys.
2. Dim gorfwcio apwyntiadau arferol.
3. Y dderbynwraig i lynu at y rheolau (problem gyffredin yn y ddeintyddfa yma).
4. Angen parchu a glynu at amseroedd apwyntiadau.

CANLYNIADAU TERFYNOL

Yn y dechrau, roedd yr awdit yma i'w weld yn un eithaf hawdd i'w gyflawni, ond o ystyried faint o wybodaeth yr oedd angen ei chasglu, ac yna ei dadansoddi mewn gwahanol agweddau, fe gymerodd gryn amser.

Fel deintyddion, rydym yn cyrraedd y ddeintyddfa am 9:00yb, ymlafnio drwy restr hirfaith y diwrnod, goroesi ac yna mynd adref gan geisio anghofio am y diwrnod a fu.

Mae cymryd rhan yn yr awdit yma wedi agor fy llygaid i rai o'r diffygion sydd yn bodoli ymhob rhestr ddyddiol, ond hefyd mae wedi ein galluogi i wella'r sefyllfa i'r deintyddion a'r cleifion.